# Cyfleusterau i Fwslimiaid

23 Medi 2016

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch i chi am eich cais, a ddaeth i law ar 30 Awst, pan wnaethoch ofyn y canlynol:

1. *A yw imamiaid yn cael eu gwahodd i swyddfeydd y Cynulliad i weddïo ar ddydd Gwener?*

2. *Pa drefniadau, os o gwbl, sy'n cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod pobl nad ydynt yn Fwslimiaid yn cael cyfle i weddïo?*

3. *A oes gan bobl nad ydynt yn Fwslimiaid fynediad at ystafell weddïo?*

4. *A yw gwisgo symbolau crefyddol yn cael ei ganiatáu ynteu a ydych yn annog pobl i beidio â gwneud hynny?*

Mewn ymateb i'ch cwestiynau:

1. **A yw imamiaid yn cael eu gwahodd i swyddfeydd y Cynulliad i weddïo ar ddydd Gwener?**
   Nid oes gennym unrhyw gofnod o unrhyw imam yn cael ei wahodd i swyddfeydd y Cynulliad i weddïo ar ddydd Gwener.

2. **Pa drefniadau, os o gwbl, sy'n cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod pobl nad ydynt yn Fwslimiaid yn cael cyfle i weddïo?**
   Mae gennym ystafell dawel yn y Senedd ar gyfer y rhai sydd â phàs ac aelodau'r cyhoedd. Rydym yn ymgynghori â'n rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) i ddylunio ac ailosod ystafell dawel ychwanegol yn adeilad Tŷ Hywel i'w defnyddio gan y rhai sydd â phàs ac ymwelwyr.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

O ran gweithwyr Comisiwn y Cynulliad sydd am weddïo, caiff y mater hwn ei drafod a'i drefnu rhwng yr aelod staff a'i reolwr llinell.

3. **A oes gan bobl nad ydynt yn Fwslimiaid fynediad at ystafell weddïo?**
   Oes. Mae'r ystafell ar gael i'r rhai sydd â phàs ac i aelodau'r cyhoedd, ac i bobl o bob crefydd ac i bobl nad oes ganddynt grefydd. Mae gennym adnoddau awtistiaeth-gyfeillgar yno hefyd er mwyn sicrhau y gellir defnyddio'r ystafell fel man tawel.

4. **A yw gwisgo symbolau crefyddol yn cael ei ganiatáu ynteu a ydych yn annog pobl i beidio â gwneud hynny?**
   Caniateir i weithwyr wisgo symbolau crefyddol. Dylai'r gweithwyr hynny sydd â gwisg swyddogol sicrhau mai ychydig iawn o emwaith (gan gynnwys symbolau crefyddol) a wisgir a bod sylw priodol yn cael ei roi i'r wisg gorfforaethol. Gall gweithwyr addasu eu gwisg ar sail gofyniad crefyddol os dymunant, a hynny drwy ymgynghori â'u rheolwyr llinell.

   O ran y bobl sy'n ymweld â'r Cynulliad, caniateir iddynt ddod â phethau miniog a llafnau ar ystâd y Cynulliad (at ddibenion crefyddol, diwylliannol neu seremonïol) os yw'r ymweliad neu'r digwyddiad hwnnw wedi'i drefnu ymlaen llaw ac os yw'r tîm diogelwch wedi cymeradwyo'r cais perthnasol. O ran cyllyll kirpan (hynny yw, cyllell neu ddagr seremonïol crefydd y Sikh), os yw ymwelydd yn dod ag un i'r Cynulliad mewn ymweliad heb ei drefnu, gall ei gadael gyda'r tîm diogelwch, a fydd yn darparu kirpan miniatur amgen i'r ymwelydd gael ei defnyddio drwy gydol ei ymweliad.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF